

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
1 Mawrth 2022

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 (“y Rheoliadau Cyffredinol”) yn cyflwyno nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â'r gwaith cyffredinol o weinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gwneir y Rheoliadau hyn fel rhan o gyfres o reoliadau sy'n gysylltiedig â sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym i raddau helaeth ar 25 Mawrth 2022. Daw rheoliad 3(8) i rym ar 6 Mai 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am nodi bod y Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o offerynnau sy'n sail i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac sy'n ceisio sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweinyddu a llywodraethu â llywodraeth leol.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi'r Rheoliadau hyn i gael eu gwneud wedi eu cynnwys yn adrannau 80(1), 83(2), 84 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 80(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgorau. Mae adran 83(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed.

Mae adran 84 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau mewn cysylltiad â Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n diwygio, yn addasu, yn cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu'n datgymhwyso unrhyw ddeddfiad. Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau'n cael eu gwneud gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ac yn dod i rym i raddau helaeth ar 25 Mawrth 2022. Daw rheoliad 3(8) ar adroddiadau blynyddol gan bwyllgorau safonau i rym ar 6 Mai 2022. Mae hyn i adlewyrchu'r dyddiad y bydd y ddyletswydd yn cychwyn ar gyfer awdurdodau lleol unigol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 yn gwneud nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig, a sefydlir drwy reoliadau. Mae pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys aelod o'r prif gynghorau hynny yng Nghymru a nodir yn y rheoliadau sy'n sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mewn rhai amgylchiadau, gall Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd gynnwys aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Yn yr achosion hynny, bydd hyn hefyd wedi ei nodi yn y rheoliadau sefydlu perthnasol. Yn ogystal, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu cyfethol unigolion i fod yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ar hyn o bryd mae pedwar o Gyd-bwyllgorau Corfforedig wedi eu sefydlu yng Nghymru: Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin a Chyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain.

Y bwriad cyffredinol wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' ac y bydd i raddau helaeth yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol, neu bwerau a dyletswyddau tebyg i awdurdodau lleol, yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

Dyma'r drydedd set o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig Cyffredinol. Gyda'i gilydd, mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o ddarpariaeth annibynnol a diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig yn effeithiol.

Mae'r darpariaethau yn y set hon o Reoliadau Cyffredinol yn:

- cymhwyso Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. O dan y Rhan hon (a rheoliadau pellach a wnaed oddi tani), bydd yn ofynnol i unrhyw aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig ac unrhyw berson a benodir i un o is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac sydd â hawl i bleidleisio ar faterion sydd i'w penderfynu gan yr is-bwyllgor hwnnw gydymffurfio â'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r diwygiadau hefyd yn darparu bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i honiadau o beidio â chydymffurfio â'r cod ymddygiad, a bod Panel Dyfarnu Cymru yn penderfynu arnynt.
- cymhwyso adrannau 92 (taliadau mewn achosion o gamweinyddu etc.) a 101 (indemnio aelodau a swyddogion) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.
- diwygio pob set o reoliadau sy'n sefydlu'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig presennol er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch penodi aelodau dirprwyol mewn achos pan na fo aelod cyngor neu aelod awdurdod Parc Cenedlaethol yn gallu gweithredu fel aelod am unrhyw reswm (gan gynnwys atal dros dro o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000).
- gwneud darpariaeth ynghylch gweithgareddau masnachol Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- gwneud darpariaeth ynghylch materion ariannol eraill gan gynnwys gofyniad i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig presennol gynnal cronfa gyffredinol, swyddogaethau mewn cysylltiad â mathau penodol o gontract ac yswiriant a roddir i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyffredinol.
- gwneud darpariaeth ynghylch hawliau Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddwyn achosion cyfreithiol a'u hamddiffyn.

- gwneud darpariaeth sy'n cymhwyso gwarchodaeth rhag atebolrwydd personol i aelodau ac aelodau o staff ac yn rhoi pwerau i Gyd-bwyllgor Corfforedig indemnio staff.
- gwneud darpariaeth ynghylch cadw cofnodion gan Gyd-bwyllgor Corfforedig a chyflwyno hysbysiadau a dogfennau i Gyd-bwyllgor Corfforedig a chanddo.
- gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch staffio megis hawliau staff i wyliau a lwfansau penodol.
- gwneud nifer o ddarpariaethau amrywiol a chanlyniadol sydd i raddau helaeth yn estyn darpariaeth bresennol mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig: yn benodol, ddarpariaeth sy'n anghymhwyso deiliaid swyddi taledig penodol rhag cael eu penodi'n aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig a hefyd ddarpariaeth sy'n cymhwyso Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (yr hawl i absenoldeb teuluol) i aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

5. Ymgynghori

Mae adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar unrhyw gynnig i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgorau. Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 yn rhan o becyn o Reoliadau / Gorchmynion sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru. Mae'r dull cyffredinol o ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a'r dyletswyddau a ddylai fod yn gymwys iddynt wedi eu datblygu ar y cyd â Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a nifer o rwydweithiau proffesiynol, gan gynnwys, er enghraifft, Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad cynhwysfawr yn 2020 ar y Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drafft a'r drefn reoleiddio ehangach y bwriedid iddi fod yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad cafwyd cefnogaeth aruthrol, yn enwedig gan awdurdodau lleol, i'r egwyddor y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i gyfundrefnau deddfwriaethol a llywodraethu presennol mewn llywodraeth leol. Teimlai ymatebwyr y dylai fod gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig lawer o'r un pwerau a dyletswyddau â phrif gynghorau a fframwaith llywodraethu a gweinyddu tebyg i brif gynghorau.

Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar Reoliadau drafft Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 ym mis Tachwedd 2021. Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn teimlo bod y Rheoliadau'n glir ac yn adlewyrchu'r egwyddor sylfaenol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel aelod o'r teulu llywodraeth leol a bod y Rheoliadau'n cynnwys y darpariaethau y credir bod eu hangen i estyn yr agweddau perthnasol ar deddfwriaeth llywodraeth leol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd ymatebwyr hefyd yn cytuno'n gyffredinol â'r meysydd hynny a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad i'w cynnwys yn y rheoliadau, ond nad oeddent wedi eu cynnwys yn y rheoliadau drafft ar gyfer ymgynghori eu hunain.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân wedi ei lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Er hynny, asesodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin 2021 y costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y bwriad polisi cyffredinol, sef y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', gan gynnwys ystyried defnyddio'r un swyddogaethau gweinyddu a llywodraethu / swyddogaethau gweinyddu a llywodraethu tebyg sy'n gymwys i awdurdodau lleol. Er i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gael ei gynnal flwyddyn yn ôl, ystyrir bod y cyfrifiadau a'r tybiaethau ariannol yn y gwerthusiad yn parhau i fod yn adlewyrchiad teg o gostau a manteision Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Dylid nodi, yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022, fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ceisio sicrhau bod goblygiadau ariannol posibl cael Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u haelodau yn dod o fewn ei awdurdodaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Rheoliadau Diwygio hyn. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif cynnydd yn ei lwyth achosion ar draws yr holl gyrff cyhoeddus o fewn ei awdurdodaeth o 10% ar gyfer 2022/23 heb ystyried cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig i'w awdurdodaeth.

Diffinnir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel 'person perthnasol' at ddibenion adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ac felly mae'n cael ei gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynhyrchu Amcangyfrif o wariant ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Rhaid i'r Amcangyfrif nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gyflawni ei swyddogaethau statudol, ac eithrio cyflog Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei hun (a'r costau cysylltiedig) sy'n cael eu codi'n uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn gyfrifol am ystyried Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae Rheolau Sefydlog 20.23 a 20.24 y Senedd yn nodi bod yn rhaid i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyflwyno ei Amcangyfrif erbyn 1 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol, gyda'r Pwyllgor Cyllid yn ei osod gerbron y Senedd, ynghyd ag unrhyw addasiadau a ystyrir yn briodol, erbyn 22 Tachwedd.

Yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer 2020/21, 'Cyflawni Cyfiawnder', mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys cost uned ar gyfer ei waith achos o £674 ar gyfer 2020/21 yn seiliedig ar 6,183 o gysylltiadau â'i swyddfa. Byddai'r gwaith achos yn cynnwys cwynion am awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion), landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a Llywodraeth Cymru a'r cyrff a

noddir ganddi, y mae pob un ohonynt yn gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan gylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd faint o gwynion, os o gwbl, a wneir am y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig, neu eu haelodau. Mae'n debygol yn y lle cyntaf y bydd hyn yn isel iawn. Hefyd, mae unrhyw lwyth achosion posibl ychwanegol, o'i gymharu â llwyth achosion cyffredinol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer yr holl gyrff sy'n dod o fewn ei awdurdodaeth, yn debygol o fod yn fach iawn neu ddim yn sylweddol.

Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn, rydym wedi tybio y byddai unrhyw lwyth achosion ychwanegol mewn perthynas â chwynion yn erbyn Cyd-bwyllgorau Corfforedig, neu eu haelodau, yn cael ei gynnal o fewn y trefniadau ariannu presennol ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn unol â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â'r Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae copi o'r [Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol i gyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.